


DOSBARTHIAU 2 a 3
BLYNYDDOEDD 8 a 9

1. Mae'r pedwar rhif ar bob llinell yn adio i'r un cyfanswm

Beth yw'r cyfanswm?


Ateb _____

Nodwch y rhifau coll



2. Rhowch y rhifau yn y cylchoedd. Rhaid i'r rhifau ym mhob llinell adio i'r cyfanswm a nodir.


Problem 1



Defnyddiwch
0,1,2,3,4

Cyfanswm 9


Problem 2



Defnyddiwch
1,2,3,4,5,6,7

Cyfanswm 12


Problem 3



Defnyddiwch
0,1,2,3,4,5

Cyfanswm 10

3. Y pellter rhwng y pegiau canlynol yw un uned ar draws ac un uned i lawr. Cysylltir pedwar o'r pegiau â darn o llyn i ffurfio siâp pedair ochr. Faint yw arwynebedd y siâp mewn unedau sgwâr?



- a) 4 b) 4.5 c) 5 ch) 5.5 d) 6

4. Dyma sgwâr adio

$$\begin{array}{r|rr} + & 5 & 3 \\ \hline 6 & 11 & 9 \\ 8 & _ & _ \end{array}$$

Llenwch y bylchau gwag.

Yn y sgwariau canlynol dangosir yr atebion ond nid y cwestiynau.

Llenwch y bylchau gwag.

$$\begin{array}{r|rr} + & _ & _ \\ \hline _ & 15 & 10 \\ _ & 10 & 5 \end{array} \quad \begin{array}{r|rr} + & _ & _ \\ \hline _ & 10 & 3 \\ _ & 9 & 2 \end{array}$$

Llenwch y bylchau gwag yn y sgwariau lluosi hyn

$$\begin{array}{r|rr} \times & _ & _ \\ \hline _ & 9 & 27 \\ _ & 4 & 12 \end{array} \quad \begin{array}{r|rr} \times & _ & _ \\ \hline _ & 21 & 15 \\ _ & 63 & 45 \end{array}$$

5. Faint yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr odrifau a chyfanswm yr eilrifau rhwng 1 a 100, yn gynwysedig?

- a) 49 b) 50 c) 51 ch) 52 d) rhif arall

6. Mae dau feiciwr yn cynnal ras ar drac cylch. Mae Aled yn gallu cwblhau un cylch o'r trac mewn 6 munud a Bethan mewn 4 munud.

Ymhen sawl munud o gychwyn y ras bydd Bethan yn pasio Aled eto?

- a) 24 munud b) 12 munud c) 15 munud ch) 6 munud
d) 10 munud

7. Mae perchennog siop lyfrau yn ceisio rhoi nifer o lyfrau (llai na 500 ohonynt) mewn parseli.

Wrth eu pacio fesul 3 roedd 1 dros ben

Wrth eu pacio fesul 4 roedd 1 dros ben hefyd

Wrth eu pacio fesul 5 roedd 1 dros ben hefyd

Wrth eu pacio fesul 6 roedd 1 dros ben hefyd

Fodd bynnag, wrth roi 7 llyfr ym mhob parcel nid oes yr un llyfr dros ben.


Faint o lyfrau sydd gan y perchennog?

Ateb _____ llyfr.

8. Torrir rhai corneli o bedwar ciwb pren.

Dau yn unig o'r solidau newydd sydd yr un siâp.

Pa ddau ydynt?



9. Rwyf yn meddwl am odrif sy'n cynnwys 3 digid.

Mae'r digidau yn wahanol i'w gilydd a'u cyfanswm yw 12.


Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddigid cyntaf yn hafal i'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddigid olaf.

Mae digid y cannoedd yn fwy na chyfanswm y ddau ddigid arall.

Beth yw'r odrif?

Ateb _____

10. Sawl sgwâr sy'n y llun?



- (a) 19 (b) 23 (c) 27 (ch) 31 (d) 36 (dd) rhif arall

11. Digidau'r flwyddyn hon yw

1 9 8 6

Gellir eu cyfuno yn y drefn 1, 9, 8 a 6 a gosod symbolau i ffurfio nifer o atebion gwahanol. Er enghraifft

$$19 + 8 - 6 = 21$$

$$(1 + 9) \times 8 + 6 = 86$$

$$198/6 = 33$$

$$1 - \sqrt{9} + 8 + 6 = 12$$

(sylwch mai $\sqrt{9} = 3$ gan fod $3 \times 3 = 9$)

Gan ddefnyddio'r symbolau +, -, x, /, $\sqrt{\quad}$ a chromfachau yn unig ceisiwch lunio'r rhifau canlynol o'r rhifau 1, 9, 8, 6 yn y drefn honno

a) 24 =

b) 8 =

Fedrwch chi lunio'r holl rifau o 1 i 100?